



Cyllid &
Thollau EF

Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith

Pam y mae gordaliadau'n digwydd

Mae credydau treth wedi dod i ben

Daeth credydau treth i ben ar 5 Ebrill 2025. Mae hyn yn golygu na fyddwn bellach yn gwneud unrhyw daliadau Credydau Treth ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae credydau treth wedi'u disodli gan Gredyd Cynhwysol, neu Gredyd Pensiwn os ydych yn gwsmer oedran pensiwn nad yw'n gweithio ond yn gyfrifol am blant.

Cynnwys

	Page
Rhagarweiniad	1
Newidiodd eich incwm	1
Rydych wedi gwahanu oddi wrth eich partner, neu wedi dechrau byw gyda phartner	3
Ni ddaru chi adnewyddu eich credydau treth ar amser	3
Newid yn eich costau gofal plant	4
Gadawodd eich plentyn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy	4
Cynnwys plant ar eich cais	5
Fe wnaethoch roi'r gorau i weithio neu leihau'ch oriau	5
Rydych yn cael budd-daliadau ar sail cyfraniadau	5
Rydych yn cael budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm	6
Yn aml fe dalwyd credydau treth o flaen llaw	6
Ni ddaru chi wirio eich hysbysiad o ddyfarniad neu roi gwybod i ni ei fod yn anghywir	7
Fe wnaethoch hawlio Credyd Cynhwysol	7
Fe wnaethoch hawlio Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth	8
Os gwnaethom gamgymeriad	8
Rhagor o wybodaeth	9

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â CThEF am ragor o wybodaeth.

Yr Iaith Gymraeg

Ffoniwch 0300 200 1900 i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

Eich hawliau a'ch ymrwymiadu

Mae 'Siarter CThEF' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a

 ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

**Newidiodd credydau treth pan newidiodd eich bywyd.
Os na wnaethoch roi gwybod i ni yn syth pan newidiodd
pethau, efallai eich bod wedi cael eich gordalu.**

Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi gwybod i chi am rai o'r rhesymau mwyaf cyffredin pam y gallech fod wedi cael gormod o gredydau treth (gordaliad).

Newidiodd eich incwm

Roedd credydau treth yn seiliedig ar eich incwm ynghyd â'ch amgylchiadau teuluol.

Ar y cychwyn, pan wnaethom gyfrifo beth i'ch talu, edrychom ar eich incwm am y flwyddyn dreth ddiwethaf - mae blwyddyn dreth yn rhedeg o 6 Ebrill un flwyddyn hyd at 5 Ebrill y nesaf.

Os nad oedd gennym yr wybodaeth hon, mae'n bosibl y byddwn wedi defnyddio'ch incwm o'r flwyddyn cyn y flwyddyn dreth ddiwethaf.

Gostyngodd eich incwm

Os oedd eich incwm blynyddol ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol yn is na'r flwyddyn flaenorol, mae'n bosibl eich bod wedi cael credydau treth ychwanegol ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Po isaf yw'ch incwm, y mwyaf o gredydau treth y gallech fod wedi'u cael. Ond pan ostyngodd eich incwm, efallai na fyddai wedi effeithio ar eich taliadau tan y flwyddyn ganlynol.

Dylech fod wedi rhoi gwybod i ni a yw'ch incwm wedi gostwng, i helpu i wneud yn si r eich bod wedi cael y swm cywir o gredydau treth.

Pe bai'ch incwm wedi gostwng £2,500 neu lai a bod eich holl amgylchiadau eraill yn aros yr un fath, ni fyddai'ch taliadau wedi cael eu heffeithio tan y flwyddyn ganlynol. Byddwn wedi defnyddio'ch ffigur incwm newydd i gyfrifo faint o arian y byddwn yn ei dalu i chi ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Pe bai'ch incwm yn gostwng mwy na £2,500, byddem wedi adolygu'ch credydau treth ond wedi anwybyddu £2,500 cyntaf y gostyngiad.

Cynyddodd eich incwm

Mae hefyd yn bwysig eich bod wedi rhoi gwybod i ni os cynyddodd eich incwm. Mae'n bosibl na fydd hyn wedi gwneud gwahaniaeth i'r arian a gawsoch yn y flwyddyn dreth hon, oherwydd byddwn yn anwybyddu'r £2,500 cyntaf o unrhyw gynnydd. Ond, os na wnaethoch roi gwybod i ni yn syth pan oeddech yn gwybod y byddai'ch incwm yn uwch, mae'n bosibl eich bod wedi cael eich talu gormod pan wnaethom gyfrifo beth i'w dalu i chi yn y flwyddyn dreth nesaf.

Er mwyn lleihau unrhyw ordaliad, dylech fod wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw gynnydd mewn incwm ar unwaith.

Enghraifft

Incwm Karl ar gyfer y flwyddyn dreth ddiwethaf oedd £22,000. Rhoddodd alwad i ni ar 6 Awst i roi gwybod ei fod wedi dechrau swydd newydd.

Amcangyfrifodd y byddai ei incwm ar gyfer y flwyddyn dreth hon yn £18,500. Gan fod ei incwm wedi gostwng £3,500, gwnaethom anwybyddu'r £2,500 cyntaf a defnyddio'r incwm o £21,000 i gyfrifo'i daliadau credydau treth newydd. Yna, dechreuodd weithio goramser ac ni ddywedodd wrthym y byddai ei incwm amcangyfrifedig yn uwch na'r hyn a ddywedodd wrthym yn wreiddiol ym mis Awst.

Arhosodd tan iddo gael ei becyn adnewyddu yn ystod y mis Mai canlynol, ac yna rhoddodd wybod i ni mai ei incwm ar gyfer y flwyddyn oedd £20,000. Gan fod ei incwm gwirioneddol wedi gostwng llai na £2,500, roedd ei hawl derfynol i gredydau treth wedi'i seilio ar incwm y flwyddyn flaenorol, sef £22,000.

Gan ein bod wedi cyfrifo credydau treth Karl yn seiliedig ar ei incwm o £21,000 yn hytrach na

£22,000, achosodd hyn ordaliad. Pe bai Karl wedi'n hysbysu yn ystod y flwyddyn y byddai ei amcangyfrif gwreiddiol yn mynd i gynyddu oherwydd ei waith goramser, efallai na fyddai wedi cael y gordaliad hwn.

Rydych wedi gwahanu gyda'ch partner, neu wedi dechrau byw gyda phartner

Os ydych yn bâr, mae'n rhaid i chi fod yn rhan o hawliad ar y cyd, a hynny'n seiliedig ar eich amgylchiadau ar y cyd. Os ydych yn sengl, mae'n rhaid i chi fod wedi gwneud hawliad sengl, a hynny'n seiliedig ar eich amgylchiadau unigol. Os gadawodd eich partner neu os symudodd partner newydd i mewn ac na wnaethoch roi gwybod i ni yn syth, mae'n bosibl eich bod wedi cael eich gordalu.

Enghraifft

Mae perthynas Robyn a John yn dod i ben ar 13 Ionawr. Arhosodd y plant gyda Robyn ar ôl i John adael. Nid yw Robyn na John yn rhoi gwybod i ni am y newid. Mae hawl John a Robyn i gredydau treth fel pâr yn gorffen ar 13 Ionawr.

Pan mae Robyn yn dychwelyd eu datganiad blynyddol ar 27 Gorffennaf, mae'n rhoi gwybod i ni am y newid. Gan fod eu hawliad ar y cyd wedi dod i ben ar 13 Ionawr, mae gordaliad o:

- 14 Ionawr i 5 Ebrill (diwedd y flwyddyn dreth ddiwethaf)
- 6 Ebrill (dechrau'r flwyddyn dreth hon) i 27 Gorffennaf

Pe bai Robyn neu John wedi cysylltu â ni ar yr adeg y bu i John adael, byddai'r gordaliad ar eu hawliad ar y cyd wedi bod yn llai.

Ni ddaru chi adnewyddu eich credydau treth ar amser

Cyn i gredydau treth ddod i ben, fe wnaethom ofyn i chi adnewyddu'ch hawliad am gredydau treth bob blwyddyn. Fe wnaethom anfon pecyn adnewyddu atoch, a oedd cynnwys eich datganiad blynyddol. Gwnaeth y pecyn rhoi gwybod i chi beth oedd angen i chi ei wneud, ac erbyn pryd.

Os gwnaethom ofyn i chi ymateb ac nad oeddech yn gwneud hyn ar amser, mae'n bosibl eich bod wedi cael gordaliad.

Enghraifft

Mae Abdul yn cael ei becyn adnewyddu ar 3 Mai. Mae'r pecyn yn rhoi gwybod iddo fod ganddo tan 31 Gorffennaf i adnewyddu ei hawliad. Mae'n rhoi'r pecyn i'r naill ochr gyda'r bwriad o'i lenwi'n hwyrach. Ond mae'n anghofio.

Gan nad yw Abdul wedi adnewyddu ei hawliad, daw ei daliadau i ben ar 6 Awst. Gofynnwn iddo ad-dalu'r arian y mae wedi'i gael ers 6 Ebrill. Pe bai Abdul wedi ateb mewn pryd, byddai unrhyw ad-daliad oedd ganddo wedi bod yn llai, neu efallai na fyddai wedi cael gordaliad o gwbl.

Newid yn eich costau gofal plant

Mae'n bosibl eich bod wedi cael gormod o gredydau treth os na wnaethoch roi gwybod i ni pryd y gwnaethoch roi'r gorau i dalu am ofal plant, neu os gostyngodd y swm £10 yr wythnos neu fwy ar gyfartaledd. Er enghraifft, os byddwch yn dechrau cael:

- talebau gofal plant oddi wrth eich cyflogwr
- cymorth dysgu cynnar neu addysg feithrin (er enghraifft, pan mae eich awdurdod lleol yn Lloegr yn talu am 15 awr yr wythnos o addysg blynnyddoedd cynnar am ddim i blant rhwng 3 a 4 ac i rai plant 2 oed neu 30 awr yr wythnos o ofal plant sy'n rhad ac am ddim i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 a 4 oed)
- help gyda'ch costau o unrhyw le arall

Roedd angen i chi hefyd roi gwybod i ni a yw'ch darparwr gofal plant wedi rhoi'r gorau i bod yn gymeradwy neu'n gofrestredig, neu a wnaethoch newid i ddarparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy gwahanol a bod y swm wedi gostwng £10 yr wythnos neu fwy ar gyfartaledd.

Enghraifft

Mae 2 blentyn Marie yn mynd i'r feithrinfa 5 diwrnod yr wythnos ac mae hi'n talu costau gofal plant o £300 yr wythnos. Ym mis Medi mae ei phlentyn hynaf, Annie, yn dechrau mynd i'r ysgol ac felly nid yw'n talu am le yn y feithrinfa ar ei chyfer mwyach. Mae ei chostau gofal plant yn disgyn i £150 yr wythnos. Nid yw Marie yn rhoi gwybod i ni am y newid hwn tan fis Rhagfyr.

Nid yw'r 4 wythnos gyntaf ar ôl i gostau gofal plant Marie newid yn effeithio ar yr arian yr ydym yn ei dalu iddi, ond bydd yn rhaid iddi ad-dalu unrhyw ordaliad o'r 4 wythnos ar ôl i'w chostau gofal plant ddisgyn, hyd at fis Rhagfyr.

Gadawodd eich plentyn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, neu hyfforddiant cymeradwy

Dylech fod wedi rhoi gwybod i ni yn syth os oedd eich plentyn wedi gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy. Rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddfa Budd-dal Plant hefyd. Os nad oeddech, mae'n bosibl eich bod wedi cael gormod o gredydau treth a Budd-dal Plant.

Enghraifft

Mae Victor, mab hynaf Olga, yn dechrau ei lefelau A yn y coleg ym mis Medi. Erbyn mis Hydref, mae'n penderfynu gadael y coleg ac yn cael swydd amser llawn yn lle hynny. Nid yw Olga'n rhoi gwybod i ni am hyn tan y mis Mawrth olynol.

Mae'r holl gredydau treth a gafodd ar gyfer Victor o fis Hydref i fis Mawrth yn ordaliad.

Cynnwys plan ar eich hawliad

Os gwnaethoch gynnwys plentyn ar eich hawliad nad yw'n byw gyda chi, neu os oeddech yn cael credydau treth ar gyfer plentyn ac mae'n nhw wedi mynd i fyw gyda rhywun arall, mae'n bosibl eich bod wedi cael eich gordalu. Mae hyn yr un fath am Fudd-dal Plant hefyd.

Enghraifft

Mae plant Raj yn byw gydag ef ac mae'n cael credydau treth ar eu cyfer. Yna, maent yn mynd i fyw gyda'u mam, Vimla, sydd yn dod yn brif ofalwr iddynt. Ni roddodd Raj wybod i ni nad oedd ei blant yn byw gydag ef mwyach. Nid oes ganddo hawl i'r arian a gafodd pan nad oedd y plant yn byw gydag ef. Bydd yn rhaid iddo ad-dalu'r swm a ordalwyd nawr.

Rydych wedi gorffen gweithio neu wedi lleihau'ch oriau

Os gwnaethoch roi'r gorau i'r gwaith neu'n lleihau eich oriau ac nad oeddech yn rhoi gwybod i ni, gallech fod wedi cael gordaliad.

I gael rhagor o wybodaeth am newidiadau yn eich oriau gwaith,

 ewch i www.gov.uk/cymraeg chwilio am WTC2

Enghraifft

Mae Sandra'n hawlio Credyd Treth Gwaith yn unig, gan nad oes ganddi blant. Ar 3 Mai, mae'n lleihau ei horiau gwaith o 32 awr i 14 awr yr wythnos, ond nid yw'n rhoi gwybod i ni tan 12 Gorffennaf.

Mae Sandra'n hawlio Credyd Treth Gwaith yn unig, gan nad oes ganddi blant. Ar 3 Mai, mae'n lleihau ei horiau gwaith o 32 awr i 14 awr yr wythnos, ond nid yw'n rhoi gwybod i ni tan 12 Gorffennaf.

O dan yr amgylchiadau hyn, rydym yn parhau i drin person fel pe bai'n gweithio'i hen oriau am y 4 wythnos gyntaf, oni bai ei fod yn hawlio Credyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae Sandra, felly, yn parhau i gael ei thrin fel pe bai'n gweithio 32 awr yr wythnos am y 4 wythnos gyntaf ar ôl iddi leihau ei horiau. Golyga hyn nad oes ganddi hawl i Gredyd Treth Gwaith o 31 Mai ymlaen. Gofynnwn iddi ad-dalu'r arian a gafodd o 31 Mai hyd at 12 Gorffennaf.

Rydych yn cael budd-daliadau sy'n seiliedig ar gyfraniadau

Gwnaeth Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau, er enghraifft, cyfrif fel rhan o'ch incwm ar gyfer credydau treth.

Dyfernir budd-daliadau ar sail cyfraniadau pan fyddwch wedi talu neu'ch credydu â chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 neu Ddosbarth 2 yn y blynyddoedd treth perthnasol.

Mae'ch hysbysiad budd-dal yn nodi a ydych yn cael budd-dal ar sail cyfraniadau. Os na wnaethoch chi roi gwybod i ni eich bod yn cael hyn, mae'n bosibl eich bod wedi cael gormod o gredydau treth a bydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl.

Rydych yn cael budd-daliadau ar sail incwm

Rhoddir Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm pan nad ydych wedi talu na'ch credydu â digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Os oeddech yn cael y budd-daliadau hyn ar sail incwm, byddem yn talu'n awtomatig i chi'r swm uchaf y mae gennych hawl iddo ar gyfer unrhyw gredydau treth y gallwch eu hawlio.

Os gwnaethom roi gwybod i ni eich bod yn cael budd-dal ar sail incwm, pan rydych yn cael budd-dal ar sail cyfraniadau, mae'n bosibl y talwyd gormod o gredydau treth i chi ac y bydd yn rhaid i chi eu had-dalu.

Enghraifft

Mae Ben a Claire yn cael credydau treth. Enillodd Claire £16,000 y flwyddyn ddiwethaf ac mae hi'n gweithio amser llawn. Enillodd Ben £10,000 y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n gweithio rhan amser. Ym mis Mehefin, mae Ben yn colli ei swydd ac yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Gan ei fod wedi talu digon o gyfraniadau yn ystod y cyfnod perthnasol, mae'n gymwys ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau.

Mae Ben a Claire yn rhoi gwybod i ni'n anghywir bod Ben yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm. Oherwydd hyn, buom dalu uchafswm yr hawliad iddynt.

Mae Ben yn ein ffonio ym mis Hydref i ddweud wrthym ynghylch ei swydd newydd a'i enillion.

Mae hefyd yn rhoi gwybod i ni iddo gael Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau, mewn gwirionedd, ac nid ar sail incwm.

Cafodd Ben a Claire uchafswm y gredydau treth gennym ar gyfer y cyfnod pan oeddem yn credu ei fod yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm.

Golygai hyn eu bod wedi cael gormod o arian, ac mae ganddynt ordaliad nawr.

Yn aml talwyd credydau treth ymlaen llaw

Rydym yn aml yn talu credydau treth ymlaen llaw, felly dylech wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau ar unwaith, er mwyn osgoi cronni gordaliad.

Enghraifft

Mae Melissa'n symud i mewn gyda Sam ar 15 Chwefror ac yn rhoi gwybod i ni ar yr un diwrnod. Dywedir wrthi y bydd ei hawliad fel person sengl yn dod i ben.

Cafodd Melissa daliad pedair wythnos ar 12 Chwefror, ond roedd hwn yn cwmpasu ei chredydau treth hyd at 28 Chwefror.

Gofynnir i Melissa ad-dalu'r arian a dalwyd o 15 Chwefror i 28 Chwefror gan y daeth ei hawliad sengl i ben ar 14 Chwefror.

Ni ddaru chi wirio eich hysbysiad o ddyfarniad neu roi gwybod i ni ei fod yn anghywir

Weithiau rydym yn cael pethau'n anghywir. Dylech fod wedi gwirio'ch hysbysiad o ddyfarniad a rhoi gwybod i ni ar unwaith os oedd unrhyw beth yn anghywir, ar goll neu anghyflawn.

Os na wnaethoch hyn cyn pen 30 diwrnod, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw ordaliad.

Enghraifft

Anfonir hysbysiad o ddyfarniad at Michael ar 10 Mehefin sy'n nodi ar gam ei fod yn anabl. Nid yw'n gwirio'i hysbysiad o ddyfarniad yn gywir gan ddefnyddio'r rhestr wirio. Felly nid yw'n gweld y camgymeriad hwn tan iddo gael pecyn adnewyddu y mis Ebrill olynol. Wrth ffonio i adnewyddu ei hawliad, mae'n rhoi gwybod i ni fod ei hysbysiad o ddyfarniad yn anghywir.

Mae'r holl arian ychwanegol y mae Michael wedi'i gael ar gyfer anabledd yn ordaliad. Er mai ni wnaeth y camgymeriad yn y lle cyntaf, gan nad oedd Michael wedi rhoi gwybod i ni am y camgymeriad mewn pryd, bydd yn rhaid iddo ad-dalu'r gordaliad.

Gwnaethoch hawlio Credyd Cynhwysol

Mae'r Credyd Cynhwysol yn cefnogi pobl sydd ar incwm isel neu allan o waith ac yn disodli'r ystod o fudd-daliadau presennol, gan gynnwys credydau treth. Mae'ch cymhwystra i hawlio Credyd Cynhwysol yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Does dim modd i chi gael credydau treth a thaliadau Credyd Cynhwysol ar yr un pryd.

Os gwnaethoch hawlio Credyd Cynhwysol, daeth eich dyfarniad credydau treth i ben ar y diwrnod cyn i'ch hawliad am Gredyd Cynhwysol ddechrau, hyd yn oed os nad oeddech yn gymwys ar gyfer Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn golygu y gallech fod wedi cael rhywfaint o daliadau credydau treth ar gyfer cyfnod yr ydych wedi hawlio Credyd Cynhwysol ar ei gyfer, a bydd yn rhaid i chi eu had-dalu.

Er mwyn gwneud yn siŵr eich bod wedi cael yr arian iawn ar gyfer cyfnod eich dyfarniad, gofynnwch i chi gwblhau'ch dyfarniad credydau treth ac anfonom Adolygiad o Ddyfarniad atoch.

Enghraifft

Mae Angela yn hawlio Credyd Treth Gwaith yn unig, gan nad oes ganddi blant. Dyfernir £1,800 iddi, ar sail ei hincwm o £12,000. O 6 Ebrill ymlaen, mae enillion Angela yn cynyddu i £20,000. Pe bai hi wedi rhoi gwybod am y cynnydd, byddai hyn wedi gostwng ei dyfarniad credydau treth i £1,000.

Ar 6 Hydref, mae'n gwneud hawliad am Gredyd Cynhwysol, sy'n dod â'i hawl i gredydau treth i ben o'r diwrnod blaenorol.

Mae CTheF yn cwblhau ei dyfarniad ar gyfer rhan o flwyddyn (yr enw ar hyn yw 'cwblhau yn ystod y flwyddyn') ac yn cyfrifo ei hawl i gredydau treth ar gyfer 6 Ebrill i 5 Hydref fel £500.

Talwyd £900 iddi hyd at 5 Hydref, sy'n golygu ei bod wedi cael gordaliad o £400 ar gyfer cyfnod ei dyfarniad, am iddi fethu â rhoi gwybod i CTheF am y newid yn ei hincwm.

Gwnaethoch hawlio Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth

Ni allwch gael Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth ar yr un pryd ag yr ydych yn cael Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Credyd Cynhwysol neu dalebau gofal plant.

Bydd eich credydau treth wedi dod i ben yn syth os gwnaethoch wneud cais llwyddiannus am Ofal Plant sy'n Rhydd o Dreth.

Os cawsoch gredydau treth yn ystod y cyfnod pan oeddech yn hawlio Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth, bydd yn rhaid i chi dalu'r taliadau credydau treth yn ôl.

Os gwnaethom gamgymeriad

I'n cynorthwyo i gael eich dyfarniad yn gywir ac i osgoi cronni gordaliad, mae'n bwysig ein bod yn bodloni ein cyfrifoldebau a'ch bod wedi bodloni eich rhai chi.

Os gwnaethom fethu â bodloni ein cyfrifoldebau, ond gwnaethoch fodloni'ch rhai chi i gyd, ni fyddwn wedi gofyn i chi ad-dalu'r gordaliad cyfan.

Fel arfer mae'n rhaid i chi ddadlau yn erbyn adennill gordaliad cyn pen 3 mis i ddyddiad:

- eich hysbysiad o benderfyniad terfynol
- y penderfyniad ar eich hysbysiad adolygiad blynyddol neu hysbysiad terfynol
- eich Datganiad o Gyfrif
- y penderfyniad ar eich hysbysiad o Adolygiad o Ddyfarniad (os daeth eich dyfarniad i ben yn awtomatig o ganlyniad i hawliad am Gredyd Cynhwysol)
- y llythyr sy'n rhoi ein penderfyniad ynghylch eich ailystyriaeth orfodol
- y llythyr oddi wrth y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, neu'r Gwasanaeth Apeliadau, sy'n rhoi ei benderfyniad i chi ynghylch eich apêl

Gallwch ond dadlau yn erbyn ad-dalu gordaliad sydd wedi digwydd yn y flwyddyn dreth y mae'r hysbysiad neu'r llythyr yn ymwneud â hi. Fel arfer, ni allwch anghytuno â gordaliadau a godwyd yn ystod blynyddoedd treth cynharach. Byddwn ond yn derbyn anghydfod hwyr o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, os oeddech yn yr ysbyty am y cyfnod 3 mis hwnnw ac nid oedd unrhyw un arall yn gallu delio â'ch materion.

Os byddwch yn anfon anghydfod atom, byddwn yn parhau i adennill y gordaliad wrth ystyried eich anghydfod.

Gallwch gael rhagor o ganllawiau manwl yn ein taflen COP26, 'Beth sy'n digwydd os byddwn wedi talu gormod o gredydau treth'. Er mwyn cael copi o'r daflen hon,

 ewch i www.gov.uk a chwiliwch am COP26 neu gallwch gysylltu â CThEF os na allwch fynd ar-lein.

Enghraifft

Mae gan Barbara ddau o blant ac mae'n cael credydau treth. Ym mis Tachwedd, mae ei phlentyn hynaf, Julie, yn gadael yr ysgol ac yn dechrau gweithio. Mae Barbara yn cysylltu â ni ar unwaith i roi gwybod am y newid. Nid ydym yn nodi'r newid tan fis Ionawr, ac rydym yn dangos dyddiad gadael Julie fel mis Ionawr.

Mae Barbara yn ffonio i roi gwybod i ni am y camgymeriad cyn gynted â'i bod yn cael ei hysbysiad o ddyfarniad diwygiedig, ond nid ydym yn ei gywiro tan fis Mawrth. Byddem yn cywiro'r penderfyniad er mwyn tynnu Julie o'r dyfarniad o fis Tachwedd ymlaen. Gan fod Barbara wedi bodloni ei chyfrifoldebau, ond na wnaethom fodloni ein rhai ni, nid ydym yn gofyn i Barbara ad-dalu'r holl ordaliad a gafodd rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth.

Rhagor o wybodaeth

Rydym yn rhoi gwybod i chi pa newidiadau y mae angen i chi roi gwybod i ni amdanynt yn y rhestr wirio TC602(SN), 'Gwirio eich hysbysiad o ddyfarniad credydau treth', yr ydym yn ei hanfon atoch gyda phob hysbysiad o ddyfarniad.

Os nad yw'r daflen hon yn ateb eich holl gwestiynau, ac os nad ydych yn gwybod o hyd pam mae gennych ordaliad, cysylltwch â ni. Gallwch wneud y canlynol:

- cysylltu â CThEF ar 0345 300 3900
 - defnyddio Relay UK ar 18001 0345 300 3900
(os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn)
 -  Orlau agor: 08:30 - 17:00, Dydd Llun - Dydd Gwener
 - ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF, HMRC, BX9 1ST
- Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rhowch wybod i ni beth yw'ch:

- enw llawn
- Rhif Yswiriant Gwladol
- rhif ffôn yn ystod y dydd

Os ydych, ar ôl cael eglurhad, yn dal i anghytuno y dylem ofyn i chi ad-dalu gordaliad, gallwch ofyn i ni edrych ar hyn unwaith eto. Dadlau yn erbyn gordaliad yw'r enw a roddwn ar hyn. I wneud hyn, llenwch a dychwelwch ffurflen TC846, 'Gordaliad Credydau Treth'. Gallwch gael copi:

-  ar-lein, ewch i www.gov.uk/cymraeg a chwilio am TC846
- trwy gysylltu â CThEF os na allwch fynd ar-lein

Gallwch ysgrifennu atom yn lle hynny, ond rhaid i chi sicrhau eich bod yn rhoi'r manylion llawn i ni, gan gynnwys:

- y flwyddyn dreth ar gyfer y gordaliad yr ydych yn anghytuno ag ef
- p'un a wnaethoch gysylltu â ni, a phryd y gwnaethoch hynny
- pam rydych yn credu bod y gordaliad wedi digwydd
- pam rydych yn credu na ddylech orfod ad-dalu'r gordaliad

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa
ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

CThEF CDIO CEPO

Ebrill 2025 © Hawlfraint y Goron 2025

CThEF 04/25